## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (dsc 1) ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym adran 17 (dyletswydd partneriaeth gymdeithasol: Gweinidogion Cymru) ac adran 19 (adroddiadau partneriaeth gymdeithasol: Gweinidogion Cymru) o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2024.